
Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

PR24 | Awst 2022


© Callum Blacoe on Unsplash


© RSPB Images


© Rhiannon Elliott on Unsplash

Glasbrint Cymru ar gyfer PR24: Canlyniadau Amgylcheddol i'r Adolygiad Pris

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn datgan yr argymhellion ar gyfer Cymru yr hoffai Cyswllt Amgylchedd Cymru eu cynnwys yng nghynlluniau cwmnïau dŵr ar gyfer Adolygiad Pris 2024.

Rydym yn ddiolchgar dros ben am faniffesto Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WCL) Glasbrint ar gyfer PR24 (a fwriedir ar gyfer cwmnïau dŵr yn Lloegr) y mae'r ddogfen hon yn seiliedig arno. Fodd bynnag, mae Cymru yn unigryw yn y Deyrnas Unedig gan ei bod eisoes wedi deddfu deddfwriaeth flaengar, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2016), sy'n cydnabod pwysigrwydd amgylchedd iach i les pobl fel rhan o'r broses o ddatblygu Cymru yn gynaliadwy. Roedden ni'n teimlo bod gofyn am ymateb a oedd yn canolbwyntio ar Gymru, sy'n adlewyrchu hyn.

Crynodeb o'r camau gweithredu

Rhaid i Lywodraeth Cymru:

- ymgorffori gwytnwch ecolegol wrth wneud penderfyniadau, gan osod targedau ar gyfer gwytnwch ecolegol drwy gyfrwng Datganiadau Polisi Strategol (SPS) i Ofwat a'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol (NEP) i'r dyfodol;
- ysgogi rhaglen effeithlonrwydd dŵr uchelgeisiol i leihau faint o ddŵr a ddefnyddir y pen i 100 l/p/d neu lai erbyn 2050, gan gynnwys ariannu ymgyrch cenedlaethol i ddylanwadu ar sut mae pobl yn defnyddio dŵr;
- ysgogi camau gweithredu i ddileu niwed ecolegol o Orlifiannau Carthffosiaeth Cyfunol (CSOs) drwy osod targedau interim uchelgeisiol a deddfu i rwystro llygryddion mynych rhag mynd i mewn i'n system garthffosiaeth;
- cytuno ar frys y gofynion er mwyn i gwmnïau dŵr gyrraedd Manteision Net ar gyfer Bioamrywiaeth gan ddefnyddio fframwaith DECCA: fe allai oedi cyn cytuno ar y gofynion hyn arwain at fod cwmnïau dŵr Cymru yn gweithio'n unol â dwy system wahanol mewn lleoliadau sy'n croesi'r ffin, gan fod Lloegr yn defnyddio'r metrig Enillion Net Bioamrywiaeth; ac
- annog a chefnogi gwaith partneriaeth ar draws Cymru gyda chwmnïau dŵr, eNGOs a'r sector amaethyddiaeth i sicrhau canlyniadau ansawdd dŵr.

Rhaid i'r cyrff rheoleiddio:

- gefnogi'r gwaith o brif ffrydio atebion ar sail natur a dalgylchoedd (C&NBS) drwy gyfrwng yr NEP a methodolegau PR24, gan dderbyn yr atebion hyn pan fyddant yn cyflawni'r canlyniadau mwyaf;



- annog pobl i ddefnyddio dulliau cyfrifo aml-gyfalaf, fel bod buddsoddiadau yn ystod PR24 yn esgor ar amryfal fanteision; a
- hybu a galluogi'r diwydiant dŵr i ddefnyddio gwyddor dinasyddion, gan sefydlu hyn yn argymhellion PR24 a'r NEP.

Rhaid i gwmnïau dŵr:

- roi'r amgylchedd wrth wraidd eu penderfyniadau fel rhan o ddull datblygu cynaliadwy a buddsoddi mewn C&NBS;
- dal i ddatblygu dull aml-gyfalaf gydag asesiadau cost a budd;
- lleihau faint o ddŵr a gymerir o'r amgylchedd, drwy fabwysiadu targed hirdymor o 100 l/p/d neu lai erbyn 2050;
- sicrhau bod Cynlluniau Rheoli Gwastraff Dŵr a Draeniau yn cynnwys targed 2030 ar gyfer dim digwyddiadau llygredd a chynlluniau i roi diwedd ar arllwysiadau o'r CSOs sydd fwyaf niweidiol i'r amgylchedd; a
- buddsoddi mewn ymgysylltu â chymunedau lleol, gan ddatblygu atebion ar sail natur a dalgylchoedd mewn partneriaeth.

Cynnal Adolygiad Pris Trawsnewidiol



Mae cyflwr ein hamgylchedd naturiol a'n sector dŵr yn gysylltiedig yn y bôn. Ac eto mae ein hamgylchedd arfordirol a dŵr croyw yn dameidiog, yn llygredig ac wedi'i ddiraddio, er anfantais i'n cymunedau, ein heconomi, a'n bywyd gwyllt. Mae angen gweithredu ar frys i warchod a gwella ein holl systemau arfordirol a dŵr croyw ac adfer ein rhwydwaith safleoedd dynodedig.

Mae angen i gynigion ar gyfer yr amgylchedd dŵr ehangach fod yn fwy uchelgeisiol o safbwynt bioamrywiaeth. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi hoelio eu sylw ar wytnwch ecosystemau drwy gynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn annog dull mwy cydweithredol o wella ansawdd yr amgylchedd naturiol drwy dechnegau megis adfer afonydd a stiwardiaeth well mewn dalgylchoedd. Fe all cwmnïau dŵr, drwy fabwysiadu dull o'r fath, wella gwytnwch eu gweithrediadau eu hunain yn erbyn straeniau'r dyfodol, gan sicrhau gwasanaeth mwy dibynadwy i gwsmeriaid a gwyrdroi dirywiadau mewn bioamrywiaeth yng Nghymru ar yr un pryd.

Yn 2021, cyhoeddodd y Senedd argyfwng natur a galwodd am sefydlu targedau adfer natur sy'n gyfreithiol-rwymol i wyrdroi colli bioamrywiaeth, targedau a gaiff eu gosod mewn deddfwriaeth llywodraethu amgylcheddol i'r dyfodol. Rydym eisiau i gwmnïau dŵr edrych at Gynlluniau Rheoli Asedau'r dyfodol (AMPs) ac ychwanegu'r hyblygrwydd i ymateb i'r targedau hyn ar ôl cytuno arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir ei bwriad i osod targedau yn unol â'r fframwaith o dargedau bioamrywiaeth byd-eang a osodwyd yn uwchgynhadledd CBD COP15 ac mae eisoes wedi ymrwymo i ddiogelu o leiaf 30% o dir a môr er mwyn natur erbyn 2030 ('30x30'). Mae'r targed hwn yn cynnwys ecosystemau dŵr croyw, sef lle all cwmnïau dŵr wneud y cyfraniad pwysicaf. Mae sylw yn awr yn cael ei hoelio ar sut gaiff y targed hwn ei gyrraedd yng Nghymru drwy gyfuniad o ardaloedd gwarchodedig a Mesurau Cadwraeth Seiliedig ar Ardaloedd Effeithiol Eraill (OECMs). Bydd rhaid i gwmnïau dŵr chwarae rôl i gyrraedd y targed hwn, sy'n mynnu bod y 30% yn cael ei reoli'n effeithiol ac mewn cyflwr da neu gyflwr ecolegol y gellir dangos ei fod yn adfer. Wrth wneud hyn, bydd y cwmnïau dŵr yn

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

www.waleslink.org

bodloni eu rhwymedigaethau dan ddyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 Cymru a hefyd ddyletswydd SoDdGA Adran 28G y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, gan gyfrannu at ymdrechion ehangach i atal dirywiad bioamrywiaeth a sicrhau Cymru Natur Bositif erbyn 2030.


Mae'r broses PR24 yn cynnig cyfle amserol i roi i gwmnïau dŵr Cymru fandad i fynd i'r afael â'r materion brys hyn drwy flaenoriaethu buddsoddiad mewn bioamrywiaeth ac adfer ein rhwydwaith o safleoedd dynodedig. Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur cyfredol i Gymru yn datgan bod gwella cyflwr safleoedd gwarchodedig yn un o'r blaenoriaethau pwysicaf, ac mae nifer fawr iawn o safleoedd gwarchodedig Cymru wedi'u lleoli yn ystadau cwmnïau dŵr. Dylai hyn fod mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol y bydd eu profiad o gwmnïau dŵr a rheolaeth dros dirddaliadau, gan gynnwys SoDdGA (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), yn rhoi dealltwriaeth werthfawr i lywio gofynion bioamrywiaeth y dyfodol.


© Elliott Neep

Prif Feysydd Pryder

Tynnu a defnyddio dŵr

- Er gwaethaf argymhellion yr Adolygiad o Gydsyniadau (2008), nid yw'r lefelau tynnu dŵr cyfredol yng Nghymru yn dal i fod yn gynaliadwy ym mhob dalgylch ac maent yn peri cryn fygythiad i amgylcheddau dŵr croyw. Mae tynnu gormodol yn arwain at golli cynefinoedd dŵr croyw a rhywogaethau cysylltiedig – yn fyd-eang, collwyd 90% o'n cynefinoedd tir gwlyb yn y 200 mlynedd diwethaf.[1]
- Prinder i'r dyfodol: yn ôl y rhagolygon, bydd cyfanswm cyflenwad dŵr y Deyrnas Unedig yn syrthio 7% erbyn 2045 oherwydd newid hinsawdd a chynnydd yn y galw.[2]
- Rhwng y ddau gwmni dŵr yng Nghymru, mae 250 litr o ddŵr yn colli ym mhob eiddo bob dydd. Mae hyn yn bron cymaint â'r hyn y mae pob eiddo yn ei ddefnyddio, sy'n 267 litr ym mhob aelwyd bob dydd.[3]
- Mae amgyffrediad defnyddwyr o'u defnydd yn gwbl wallus – mae 46% o'r bobl a arolygwyd yn 2020 yn meddwl bod eu haelwyd gyfan yn defnyddio llai nag 20 litr y dydd. Mae'r ffigur gwirioneddol yn oddeutu 142 litr y pen.[4]


© Nick Russill on Unsplash

Ansawdd dŵr

- Rhyddheir gormod o garthion crai i ddyfrffyrdd, gyda thystiolaeth glir bod rhai CSOs yn mynd dros eu terfynau cyfreithiol.[5]
- Mae Tasglu Llywodraeth Cymru ar Orlifiannau Carthffosiaeth[6] wedi cyhoeddi cynllun gweithredu gyda chamau i osod targedau i leihau difrod ecolegol o orlifiannau, gwella'r ddarpariaeth data ac adroddiadau cyhoeddus, ac adolygu'r ffordd y caiff gorlifiannau eu cynllunio, eu rheoleiddio a'u gorfodi.
- Colli bioamrywiaeth oherwydd llygredd: yng Nghymru, mae poblogaethau salmonid wedi dirywio'n ddifrifol ym mhob afon ac mae rhywogaethau a arferai fod yn gyffredin, megis cregyn gleision perlog dŵr croyw, cimychiaid afon crafanc wen a llygod dŵr mewn perygl difrifol.[7]
- Methu â chyrraedd safonau; yng Nghymru, 40% yn unig o gyrff dŵr sy'n cyrraedd y safonau ar gyfer Statws Ecolegol Da.[8]
- Dangosodd adolygiad yn 2021 o grynoadau ffosffad mewn afonydd ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) fod 61% o'r 107 o gyrff dŵr a aseswyd yn methu o safbwynt targedau ffosffad.[9]
- Perygl i iechyd pobl; mae'r risg i nofwyr ddal salwch fel E.coli neu gastroenteritis yr un mor uchel yn 2020 ag yr oedd yn y 1990au.[10]
- Mae ansawdd dŵr gwael yn cael sgil-effeithiau sylweddol ar dwristiaeth a hamdden, gan niweidio'r economi. Amcangyfrifir bod gwerth economaidd dyfroedd croyw i'r Deyrnas Unedig gyfan yn £39.5 biliwn.[11]
- Mae mynediad i ofod glas/gwyrdd o ansawdd da yn holl bwysig i'n hiechyd corfforol a'n hiechyd meddwl, fel yr amlygodd ein profiad drwy Covid19[12] Gweithredu Positif dros Natur.

Buddsoddi mewn Atebion seiliedig ar Natur a Dalgylchoedd

Rydyn ni'n credu, drwy weithio gyda'n gilydd, fod gennym gyfle unigryw i ddangos sut all buddsoddi mewn C&NBS roi manteision aruthrol i bobl a natur fel ei gilydd. Croesawn y dull gweithio cydweithredol a welir yn nogfen Ofwat 'PR24 a thu hwnt: Dull cydweithredol yng Nghymru.'

Fe all C&NBS, yn enwedig mewn mawndiroedd a choetiroedd, esgor ar lu o fanteision i natur a chymdeithas, gan gynnwys:

- adfer natur a chynefinoedd

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

www.waleslink.org


© K. Mitch Hodge

- helpu i atal a gwyrdroi bioamrywiaeth sy'n cael ei cholli
- gwella ansawdd dŵr a storio dŵr yn well
- gwella cyflwr safleoedd a ddynodir ar gyfer gwarchod dŵr
- gwella'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd
- helpu i gyrraedd nodau sero net
- cryfhau'r economi
- creu swyddi gwyrdd

Mae'r Adroddiadau canlynol gan RSPB, a gyhoeddwyd yn 2021, yn amlygu manteision ehangach a gwerth buddsoddi mewn Atebion ar sail Natur:

1. Nature-based Solutions in UK Adaption Policy (cynhyrchwyd gan Nature-based Solutions Initiative ym Mhrifysgol Rhydychen)
2. Economic benefits of nature-based climate solutions (cynhyrchwyd gan Cambridge Econometrics)

Canfu'r olaf o'r ddwy astudiaeth, o ran manteision economaidd a chymdeithasol:

- am bob £1 a fuddsoddir i adfer mawndiroedd, yr amcangyfrifir bod yr enillion mesuredig disgwyliedig arferol yn £4.62
- am bob £1 a warir ar goedwigo, yr amcangyfrifir bod yr enillion mesuredig disgwyliedig arferol yn £2.79

Mae gan dir sydd y tu allan i'r rhwydwaith safleoedd dynodedig lle mae C&NBS yn cael eu gweithredu, gan esgor ar ganlyniadau bioamrywiaeth cadarnhaol, y potensial i gyfrannu at y targed 30x30 os yw'n bodloni'r meini prawf i gael ei gydnabod fel OECM (Mesurau Cadwraeth Seiliedig ar Ardaloedd effeithiol eraill). Bydd gan gwmnïau dŵr ran i'w chwarae i gyrraedd targed 30x30 Llywodraeth Cymru, a byddai mabwysiadu Cymhellion Cyflawni Canlyniadau ar fioamrywiaeth yn helpu i ddangos bod bioamrywiaeth wedi'i sefydlu fel amcan rheoli eilaidd mewn ardaloedd sydd o bosibl yn cael eu rheoli'n bennaf ar gyfer amcanion cysylltiedig â dŵr. Ochr yn ochr â thystiolaeth bod canlyniadau bioamrywiaeth cadarnhaol i'w cael, byddai hyn yn cryfhau'r ddadl dros gydnabod OECM mewn ardaloedd o'r fath. Fodd bynnag, er mwyn gwir alluogi cwmnïau dŵr i fuddsoddi mewn C&NBS, mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith rheoleiddio a chaniatáu i gefnogi buddsoddiadau yn y rhain.


© Lez Smith on Unsplash

Dyletswyddau Statudol

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn annog i Adnoddau Naturiol gael eu Rheoli yn Gynaliadwy (SMNR), gan gyfrannu at nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi dyletswydd benodol ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys cwmnïau dŵr, i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu gwytnwch ecosystemau (dyletswydd bioamrywiaeth adran 6). Mae Adran 22 o'r Ddeddf yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i atal gofynion statudol ar gyfer cynlluniau arbrofol. Mae'r pŵer hwn yn debygol o fod yn bwysig i alluogi treialon C&NBS. Mae Adran 28G o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn rhoi dyletswydd benodol ar gwmnïau dŵr i gymryd camau rhesymol i fynd ati i warchod a gwella nodweddion SoDdGA.

Yn ei Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- Greu economi gryfach, fwy gwyrdd wrth inni wneud y cynnydd gorau posibl at ddatgarboneiddio.
- Gwreiddio ein hymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd ym mhopeth a wnawn.

Mae'r Rhaglen yn rhestru'n benodol yr Ymrwymiadau Newid Hinsawdd canlynol, ymrwymiadau'r ydyn ni'n ystyried eu bod yn berthnasol i broses PR24:


- Rheoli llifogydd ar sail natur ym mhob prif dalgylch afon er mwyn ehangu cynefinoedd coetiroedd a gwlypdiroedd.
- Deddfu i gryfhau'r gofynion ar gyfer defnyddio systemau draenio cynaliadwy sy'n darparu cynefin bywyd gwyllt.
- Dechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, gan gryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro ansawdd dŵr.

Caiff yr ymrwymiadau hyn eu hadlewyrchu yn Natganiad Polisi Strategol Llywodraeth Cymru.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddyletswydd i weithredu egwyddorion SMNR yn ei waith, gan gynnwys ei gyfraniad i greu'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol (NEP) yng Nghymru.

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

www.waleslink.org







Mae dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 yn berthnasol i bob tir lle mae cwmnïau dŵr yn gweithredu. Lle bo effeithiau gweithredol a pherchnogaeth tir cwmnïau dŵr yn cynnwys SoDdGA ac ardaloedd gwarchodedig eraill, dylai fod yn glir y bydd y camau sy'n angenrheidiol i warchod a gwella'r SoDdGA ymhellach yn hollbwysig ac y dylai fod yn llwybr allweddol at gyflawni'r ddyletswydd Adran 6 ehangach. Dylai'r dyletswyddau hyn gael eu hadlewyrchu yn yr NEP. I gyflawni ar eu rhwymedigaethau dan Adran 6, dylai cwmnïau dŵr ddatgan eu camau gweithredu yn glir yn eu cynlluniau busnes er mwyn blaenoriaethu'r gwaith ar gyfer gwarchod a gwella safleoedd SoDdGa ac ardaloedd gwarchodedig eraill.

Mae'n bwysig bod amcanion penodol, wedi'u hategu gan Gymhellion Cyflawni Canlyniadau (ODIs), yn cael eu cynnwys mewn AMPs os yw cwmnïau dŵr am fuddsoddi ynddynt. I sicrhau bod cynlluniau'r dyfodol yn rhoi blaenoriaeth i fioamrywiaeth, rydym yn argymell yn gryf fod yr NEP yn cynnwys gofyn clir i wella cyflwr y safleoedd gwarchodedig dynodedig (e.e., SoDdGA ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) ar ystâd y diwydiant dŵr yng Nghymru. Gan nad yw'r data cyflwr llinell sylfaen ar gyfer safleoedd gwarchodedig yng Nghymru yn gyflawn, rydym yn argymell i hyn gael ei fframio fel un o'r gofynion er mwyn sicrhau'r holl gamau rheoli angenrheidiol i fodloni amcanion cadwraeth safleoedd gwarchodedig, cymaint fel bod y gwaith monitro yn dangos bod safleoedd mewn cyflwr ffafriol neu y gellir mesur eu bod yn gwella.

I gyd-fynd â'r gofyn hwn dylid sefydlu ODIs Bioamrywiaeth gorfodol gyda thargedau mesuradwy i ysgogi gwell perfformiad yn yr ardal hon, ar sail y gofynion a awgrymir uchod. Yn yr hirdymor, rydyn ni'n gobeithio y bydd gwell data monitro yn caniatáu ar gyfer pennu targedau cyflwr penodol ar gyfer SoDdGA ar ystadau cwmnïau dŵr.

Mae Llywodraeth Cymru a CNC eisoes wedi ymrwymo i roi ecosystemau iach, gweithredol wrth wraidd popeth a wnânt. Mae'n ddyletswydd arnynt i bwyso ar Ofwat a chwmnïau dŵr i gymryd camau sy'n adlewyrchu hyn ym mhob AMP hyd at 2050.

Cynnal Adolygiad Pris Trawsnewidiol

Mae Adolygiad Pris heriol, ond trawsnewidiol ar yr un pryd, yn rhoi cyfle i sicrhau gydol cyfnod nesaf y cynllun (AMP8) fod y sector dŵr yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i nodau amgylcheddol Cymru.

Mae ein hargymhellion i'w gweld yn fwy manwl yn y tablau isod.

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

www.waleslink.org

Tabl 1: Sefydlu'r ethos		
Prif gamau gweithredu	**Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn gofyn**	**Pwy ddylai Weithredu?**
Ystyried gwytnwch ecosystemau wrth wneud penderfyniadau	Dylai'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol (NEP) gynnwys gwytnwch ecosystemau fel targed a ddylai wedyn gael ei ychwanegu at argymhellion y NEP yn yr Cynllun Rheoli Asedau hwn ac i'r dyfodol. Fe ddylai ychwanegu gwytnwch ecosystemau fel canlyniad gwytnwch dilys fod yn un o ysgogyddion allweddol y NEP i sicrhau bod cwmnïau yn datblygu ac yn cyflwyno cynlluniau sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd y mae eu busnesau yn dibynnu arno.	CNC/Ofwat
Datblygu ymhellach ac integreiddio ddull aml-gyfalaf gydag asesiadau cost a budd	Mae cwmnïau dŵr Cymreig eisoes wedi dechrau datblygu dull cyfrifo aml-gyfalaf. Dylai hyn gael ei ddatblygu ymhellach a'i sefydlu'n glir yng nghyfrifon cwmnïau fel bod cyfalaf naturiol a chymdeithasol yn cael eu hystyried yn briodol pan wneir penderfyniadau. Rhaid i gwmnïau adeiladu ar baratoadau AMP6 a'r treialon sy'n digwydd yn AMP7 a mabwysiadu dull aml-gyfalaf ar draws y diwydiant cyfan. Bydd hyn yn sicrhau nad yw amrywiadau mewn dulliau yn arwain at ganlyniadau gwaelach i'r amgylchedd mewn gwahanol rannau o Gymru o'i gymharu â Lloegr.	Cwmnïau Dŵr/ Ofwat
Buddsoddi mewn C&NBS sy'n esgor ar amryfal fanteision i natur, carbon a maethynnau	Dylid defnyddio cyfran fwy o fuddsoddiadau blynyddol y diwydiant yn yr NEP i gyflwyno Atebion ar Sail Natur a Dalgylchoedd (C&NBS) o ansawdd da, gan roi mwy i gymdeithas a'r amgylchedd na dulliau traddodiadol a bydd yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiad y diwydiant dŵr i gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Dylai C&NBS gael eu 'prif ffrydio'. Dylai'r NEP gynnwys targedau uchelgeisiol penodol ar gyfer defnyddio mwy ar C&NBS. Dylai cwmnïau dŵr ymdrechu i fabwysiadu C&NBS fel y drefn safonol a darparu tystiolaeth dda os na ellir ymgorffori atebion o'r fath. Bydd angen i gyrff rheoleiddio gael arweiniad gwerthuso clir i'w helpu i ddeall a derbyn yr opsiynau C&NBS a gynigir gan gwmnïau dŵr a rhanddeiliaid. Dylai C&NBS ymestyn ei gwmpas drwy fuddsoddi llawer mwy mewn gwarchod a gwella stociau carbon gwyrdd a glas, gan gynnwys mawndiroedd, glaswelltiroedd, gwlypdiroedd a gwelyau cyrs fel rhan o siwrnai ehangach i gyrraedd sero net, rheoli maethynnau'n effeithiol ac adfer natur. Mae C&NBS yn cynnig cyfleoedd cost-effeithiol i ddatgarboneiddio'n gyflym ochr yn ochr ag atebion technolegol drutach eraill gan esgor ar amryfal fanteision yn unol ag SMNR er mwyn cyrraedd targedau sero net. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried hon fel ffordd o wrthbwyso allyriadau i osgoi cyrraedd sero net gwir, dilys drwy leihau allyriadau carbon. Dylai dull cyfrifo carbon cwmnïau gynnwys effeithiau carbon 'cwmpas 3' (allyriadau anuniongyrchol megis milltiroedd teithio staff neu nwyddau a brynir) sy'n gallu bod yn gyfran fawr o ôl-troed carbon busnes.	Cwmnïau Dŵr/ Ofwat
Cynyddu'r pwysoliad i gynlluniau sy'n dilyn egwyddorion SMNR ac sy'n sicrhau manteision amgylcheddol ehangach	Fe ddylai'r broses gwerthuso opsiynau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP) a Chynlluniau Rheoli Dŵr Gwastraff a Draeniau (DWMP) cwmnïau roi mwy o bwysoliad i gynlluniau sy'n dilyn egwyddorion SMNR ac sy'n sicrhau manteision amgylcheddol ehangach drwy ddefnyddio'r cyfleoedd allweddol a nodir yn SoNaRR 2020. Rhaid i Gynlluniau Busnes adlewyrchu'r pwysoliad hwn i sicrhau eu bod yn blaenoriaethu cynlluniau sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol ac ecolegol.	Cwmnïau Dŵr/ Ofwat/CNC

Tabl 1: Sefydlu'r ethos		
Prif gamau gweithredu	**Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn gofyn**	**Pwy ddylai Weithredu?**
Sefydlu amcanion cyflawni clir ar gyfer bioamrywiaeth er mwyn helpu i gyflawni dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 a dyletswydd SoDdGA adran 28G.	Mynnu bod cwmnïau dŵr yn gosod amcanion bioamrywiaeth clir a mesuradwy ar gyfer rheoli eu hystadau a'u gweithgareddau, yn unol â'u dyletswyddau statudol ac ag amcanion polisi a thargedau Llywodraeth Cymru. Dylai'r rhain gynnwys amcanion penodol sy'n ymwneud â rheolaeth a chyflwr safleoedd gwarchodedig. Sefydlu ODIs Bioamrywiaeth gorfodol i ysgogi cynnydd i gyflawni amcanion Bioamrywiaeth a thanlinellu'r mandad clir sydd gan gwmnïau dŵr yn y maes hwn.	Ofwat/ CNC/ Cwmnïau Dŵr
Cyhoeddi Adolygiad EPA ac Adroddiadau Perfformiad Cwmnïau Dŵr	Dylai Adroddiadau ar Berfformiad Blynyddol cwmnïau ac Asesiadau o Berfformiad Amgylcheddol (EPA) CNC gynnwys diweddariadau ar gynnydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol Amgylcheddol / Ymrwymiadau Perfformiad, ynghyd â gwybodaeth am gosbau neu ddirwyon amgylcheddol. Byddem yn disgwyl i fetrigau newydd gael eu hychwanegu'n benodol ar gyfer gorlifiannau carthffosydd. Dylai penawdau amgylcheddol o'r adroddiadau hyn gael eu cyhoeddi'n flynyddol ar y wefan Discover Water, fel bod gwybodaeth ar gael yn hawdd i gwsmeriaid a rhanddeiliaid, a bod modd ei chymharu ar draws cwmnïau.	CNC/Water UK/ Cwmnïau dŵr
Sefydlu economi gylchol gynaliadwy a diogel yn ymarfer y diwydiant dŵr	Dylid sefydlu economi gylchol gynaliadwy a diogel yn ymarfer y diwydiant dŵr. Mae Datganiad polisi strategol Llywodraeth Cymru yn gosod disgwyliadau ar Ofwat i annog cwmnïau dŵr i fabwysiadu arferion economi gylchol. Yn ogystal ag arferion i leihau gwastraff, dyma rai camau penodol yr hoffem eu gweld: • sicrhau nad yw gweithrediadau cwmnïau dŵr yn cyfrannu at gynnydd mewn halogion (e.e., micro-blastigau a llygryddion organig mynych) yn yr amgylchedd; • adolygu'r arfer cyfredol o drin bio-solidau a slwtsh a chyflwyno trothwyon ar gyfer slwtsh carthion wedi'i drin sy'n adlewyrchu cyfansoddiad dŵr gwastraff modern, gan gynnwys ar gyfer micro-blastigau a PFAS, fel lleiafswm; • ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr gyhoeddi map ffordd sy'n cynnwys targedau gostwng blynyddol, ac sy'n rhoi sylw i bryderon ynglŷn â bacteria ag ymwrthedd gwrth-ficrobaidd; • mynnu bod cwmnïau dŵr yn gweithredu'n rhagweithiol i sicrhau bod llai o lygryddion yn mynd i mewn i'r system drwy gydweithio i ariannu prosiectau sy'n adnabod ac yn gweithredu ymyraethau i atal llygryddion yn y tarddiad.	Ofwat/cwmnïau dŵr



Defnyddio Dŵr

Mae'r ddau gwmni dŵr yng Nghymru, yn eu hymgynghoriad cyn-dechrau PR24, wedi tynnu sylw at brinder yn y cyflenwad dŵr mewn nifer o ddalgylchoedd ar draws y wlad. Mae angen i'r Adolygiad Pris nesaf ein symud ymhellach at ddefnyddio dŵr yn gynaliadwy drwy gymryd camau sydd, ar y cyd, yn golygu ein bod yn cymryd llai o ddŵr o'n hamgylched.

Tabl 2 – Defnyddio dŵr		
Prif gamau gweithredu	**Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn gofyn**	**Pwy ddylai Weithredu?**
Lleihau anghenion tynnu dŵr	Mae'n holl bwysig ein bod yn lleihau faint o ddŵr sy'n cael ei gymryd o'r amgylchedd a'i roi yn y cyflenwad (Mewnbwn Dosbarthu, DI) sy'n cael ei fesur mewn termau cyfeintiol absoliwt ac fel DI y pen. Dylai cwmnïau osod cerrig milltir (2030, 2040, 2050), wedi'u cyplysu â nod i leihau'r DI absoliwt yn sylweddol erbyn 2040. Dylid cyrraedd y cerrig milltir hyn drwy gyfuniad o leihau; • faint o ddŵr sy'n gollwng (Ml/d) • defnydd y pen domestig (PCC, l/p/d) • galw heblaw aelwydydd Dylent gynnwys targedau AMP8 sy'n rhoi cwmnïau'n gadarn ar y trywydd i helpu'r llywodraeth i gyrraedd nodau tymor hwy. Dylai'r diwydiant fabwysiadu targed hirdymor o leihau PCC i 100 l/p/d neu lai erbyn 2050, (ffigur y mae adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn dweud ei fod yn fwy na chyraeddadwy yng Nghymru[13]). Cytunwyd bod y rhagdybiaeth gynllunio gyfredol o 110 l/p/d ar gyfer y dyddiad hwnnw yn briodol yn absenoldeb polisi cadarnhaol newydd gan y llywodraeth; mae llywodraeth y Deyrnas Unedig nawr yn gweithredu labeli dŵr gorfodol a bydd yn cyhoeddi map ffordd i wella effeithlonrwydd dŵr mewn cartrefi, gan wneud gostyngiadau cynt yn ymarferol bosibl. Dylai Llywodraeth Cymru nawr ddatgan sut byddant hwy yn gwella effeithlonrwydd dŵr yng Nghymru.	Cwmniau Dwr/Ofwat/ Llywodraeth Cymru/CNC
Gwella'r ddarpariaeth gwybodaeth i ddefnyddwyr a mesuryddion i helpu cwsmeriaid i arbed dŵr	Mae'n hysbys bod mesuryddion clyfar yn helpu cwsmeriaid i ddeall faint o ddŵr maen nhw'n ei ddefnyddio ac i ddefnyddio llai. Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth i annog rhagor o bobl i ddefnyddio mesuryddion dŵr, gan gynnwys ystyried rhaglen mesuryddion gorfodol a sut i helpu i gyflwyno mesuryddion cyfleustodau cyfun fel bod cwsmeriaid yn deall yn well y cysylltiadau rhwng defnyddio dŵr a defnyddio ynni. Dylai pob cwsmer sydd â mesurydd newydd gael y dewis i gael archwiliad arbed dŵr yn y cartref yn AMP8. Dylai cwmnïau dŵr ddarparu gwybodaeth syml, hawdd cael gafael arni i gwsmeriaid ar faint o ddŵr maent yn ei ddefnyddio a meincnodau i anelu atynt. Heb y wybodaeth hon, mae'n anos cymell cwsmeriaid i arbed dŵr.	Llywodraeth Cymru/Cwmnïau dŵr/Adwerthwyr Dŵr
Mesurau deddfwriaethol a mesurau eraill i leihau PCC i 100 l/p/d neu lai	Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rhaglen o waith effeithlonrwydd dŵr gan gynnwys; • cyfarwyddo targedau'r diwydiant dŵr • cyflwyno gofynion labelu dŵr, • mynnu safonau effeithlonrwydd mwy caeth ar gyfer datblygiadau effeithlon o ran dŵr ym Mholisi Cynllunio Cymru	Llywodraeth Cymru
Sicrhau lefelau tynnu dŵr cynaliadwy sy'n gwarchod natur yn ein hafonydd	Rhaid i lefelau tynnu dŵr cwmnïau dŵr fod yn gynaliadwy a pheidio â pheri dim bygythiad i amgylcheddau dŵr croyw. Disgwyliwn i'r Adolygiad o Ganiatadau fod wedi'i weithredu'n llawn erbyn 2025 ac i gyrff rheoleiddio weithio gyda chwmnïau dŵr i sicrhau bod yr holl afonydd yng Nghymru yn gwarchod cyfundrefn llif naturiol sy'n gefnogol i gynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Rhaid i gynlluniau hefyd ragweld anghenion tynnu dŵr a diffygion i'r dyfodol.	CNC/Cwmnïau Dŵr



Dŵr gwastraff

Mae ein systemau trin dŵr presennol yn ei chael yn anodd ymdopi â'r pwysau cynyddol yn sgil digwyddiadau tywydd eithafol a galw cynyddol. Ychydig iawn o gynnydd a wnaed i fynd i'r afael â hyn. 40% yn unig o gyrff dŵr Cymru a gafodd statws ecolegol da yn ôl data 2021. Fe wnaeth adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith yn 2022 ar orlifiannau stormydd ddangos fod Monitorau Digwyddiadau a Hyd gan gwmnïau dŵr wedi cofnodi 105,751 o arllwysiadau yn 2020.

Tabl 3: Seilwaith dŵr gwastraff

Prif gamau gweithredu	Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn gofyn	Pwy ddylai Weithredu?
Cyhoeddi data amser real i hysbysu rhanddeiliaid a bod yn sail i benderfyniadau buddsoddi	Rhaid i'r Diwydiant wella'r fethodoleg fonitro ar gyfer Gorlifiannau Stormydd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am lwyth a chyfaint a dylai data amser real gael ei gyhoeddi (ar gyfer mwy nag ond dyfroedd nofio).	CNC/Llywodraeth Cymru/Cwmnïau dŵr
Cyhoeddi'n gyhoeddus ac ymestyn y Rhaglen Ymchwiliadau Cemegol	Dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod corff Ymchwilio Diwydiant Dŵr y Deyrnas Unedig (UKWIR) yn cyhoeddi data ac allbynnau o'r Rhaglen Ymchwiliadau Cemegol. Dylai'r rhaglen hon hefyd gael ei hymestyn i gynnwys llygryddion cemegol datblygol.	Llywodraeth Cymru/UKWIR
Gwella dosbarthiad a'r buddsoddiad mewn seilwaith rhyddhau carthion	Rhaid i gwmnïau dŵr ddosbarthu cyflwr yr holl Orlifiannau Carthffosydd Cyfunol (CSOs) a sicrhau bod gwybodaeth am asesiadau yn agored a thryloyw cyn gynted ag y bo'r data yn caniatáu. Ni ddylai'r un CSO yng Nghymru achosi niwed ecolegol erbyn 2030. Rhaid i raglen o ymchwilio a gwella parhaus gael ei chefnogi drwy gyllid sy'n gallu dyrannu buddsoddiad drwy eitemau wrth gefn, er mwyn galluogi i waith a welwyd mewn AMP gael ei gywiro yn yr AMP.	Cwmnïau Dŵr/ CNC/Ofwat
Digomisiynu neu sicrhau dim niwed o CSOs sy'n niweidiol i'r amgylchedd	Integreiddio targedau interim (a ddisgwylir ym mis Mawrth 2023) i 'leihau niwed' o CSOs drwy greu cynlluniau i ddigomisiynu neu sicrhau dim niwed ecolegol oddi wrth bob CSO sy'n achosi niwed i'r amgylchedd. Cynllunio i ddigomisiynu neu leihau'n sylweddol y gyfradd ollyngiadau o'r CSOs mwyaf niweidiol i'r amgylchedd yn y cynllun busnes nesaf (AMP8). Dylai 'niwed' gael ei ddiffinio gan yr effaith amgylcheddol ar y cyrff dŵr sy'n ei dderbyn. Prif ffrydio defnyddio C&NBS megis cynlluniau draenio cynaliadwy ar gyfer ysgafnu'r pwysau ar CSOs a'u defnyddio lle bynnag y bônt yn effeithiol.	Cwmnïau Dŵr/ Llywodraeth Cymru
Lleihau'r effaith o CSOs ar gyrchfannau hamdden	Rhaid i Gynlluniau Busnes gynnwys y targed dynodiad Dŵr Nofio o'r Bil Carthion (Dyfroedd Mewndirol) ar gyfer cyrchfannau hamdden (h.y., o leiaf ddau ddynodiad dŵr nofio mewndirol i bob cwmni dŵr bob blwyddyn) gan sicrhau ar yr un pryd nad oes yr un Dŵr Nofio Mewndirol yn effeithio ar safleoedd dynodedig. Dylai effaith CSOs ar iechyd pobl mewn ardaloedd hamdden/ dŵr nofio dynodedig hefyd gael ei hystyried wrth flaenoriaethu buddsoddiadau.	Cwmnïau Dŵr
Cynlluniau Busnes i gynnwys blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli Dŵr Gwastraff a Draeniau	Cynnwys blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli Dŵr Gwastraff a Draeniau (DWMP) (yn cwmpasu'r holl ddŵr gwastraff, nid dim ond CSOs) yn PR24. Rhaid i Gynlluniau Busnes adlewyrchu blaenoriaethau dŵr gwastraff a ddaw allan o'r DWMP a'r NEP.	Cwmnïau Dŵr
Gosod targedau ar gyfer dim digwyddiadau llygredd erbyn 2030	Pob cwmni dŵr i osod targed ar gyfer dim digwyddiadau llygredd (categorïau 1, 2 a 3) erbyn 2030.	Cwmnïau Dŵr/ Ofwat/ Llywodraeth Cymru

Tabl 3: Seilwaith dŵr gwastraff		
Prif gamau gweithredu	**Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn gofyn**	**Pwy ddylai Weithredu?**
Gosod targedau ar gyfer dim digwyddiadau llygredd erbyn 2030	I gefnogi hyn, mae angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i reoli llygryddion penodol, gan eu rhwystro rhag mynd i'r system garthion, e.e. weips plastig, plaladdwyr a chemegau problemus.	Cwmnïau Dŵr/ Ofwat/ Llywodraeth Cymru
Gosod targedau dŵr gwastraff ar nitradau a ffosfforws	Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau dŵr gwastraff ar nitradau a ffosfforws fel rhan o ddull cyffredinol o reoli dŵr gwastraff yn fwy cynaliadwy. Dylai targedau dŵr glân newydd fynd y tu hwnt i ofynion presennol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Fe allai'r metrigau cyfrannol, yn ychwanegol at fonitro nitradau a ffosffad, gynnwys; • cyfran y dŵr gwastraff sy'n cael ei drin i safonau trydyddol • arwynebedd y cynefin sy'n cael ei warchod drwy gynlluniau carthion tro cyntaf neu 'ail-gyfeirio' seilwaith y diwydiant dŵr	Llywodraeth Cymru/CNC



Ymgysylltu â Chymunedau: Ennyn Cefnogaeth y Cyhoedd

Mae gweithio gyda'r cyhoedd i sicrhau manteision y cytunwyd arnynt yn achosi llai o straen yn y pendraw i bawb a cheir manteision economaidd hefyd.

Tabl 4: gweithio gyda'r cyhoedd		
Prif gamau gweithredu	**Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn gofyn**	**Pwy ddylai Weithredu?**
Dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr	Ariannu ymgyrch cenedlaethol i newid ymddygiad defnyddwyr wrth ddefnyddio dŵr a'r ffordd y mae pobl yn gwaredu eitemau a chemegau i lawr draeniau a thoiledau.	Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag eraill
Ymgysylltu â chymunedau lleol	Buddsoddi mewn ymgyrch ymgysylltu o ansawdd gyda chymunedau lleol lle mae Atebion ar Sail Natur a Dalgylchoedd yn cael eu hystyried. Mae cynlluniau sydd â chefnogaeth gymunedol yn fwy cadarn ac mae'r gymuned yn aml yn chwarae rhan allweddol i sicrhau eu heffeithiolrwydd.	Cwmnïau dŵr mewn partneriaeth â chymunedau lleol
Gweithio gyda'r sector amaethyddol i wella'r amgylchedd dŵr	Fe all y sector dŵr chwarae rôl allweddol i gefnogi ffermwyr sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau, ond lle bod lleihau llygredd yn gofyn iddynt fynd y tu hwnt i linellau sylfaen rheoleiddio. Dan y dull presennol, fe all ffermwyr fethu â fforddio buddsoddi, ac ni all y sector dŵr eu cynorthwyo (e.e. drwy dalu am ddull gwasanaethau ecosystemau). Dylid datblygu dulliau i gefnogi gwaith cydweithredol rhwng sectorau heb herio'r egwyddor y llygrwr sy'n talu na rhoi beichiau cyfrifoldeb annheg (am lygredd o sector gwahanol) ar y naill sector.	CNC/ Llywodraeth Cymru
Hybu'r diwydiant dŵr i ddefnyddio Gwyddor Dinasyddion, gan sefydlu hyn yn argymhellion PR24 a'r NEP.	Mae angen monitro'r amgylchedd yn briodol. Dylai Llywodraeth Cymru a CNC greu fframwaith cenedlaethol ar gyfer dulliau gwyddor dinasyddion safonedig yng Nghymru. Mae'r rhain yn integreiddio'r trefniadau monitro lleol gyda data arall dwysedd uchel, isel ei gost ag offer cymorth penderfynu cenedlaethol.	Ofwat/CNC/ Llywodraeth Cymru



Trodnodiadau

1. https://livingplanet.panda.org/en-gb/freshwater
2. https://www.nao.org.uk/press-release/water-supply-and-demand-management/
3. https://discoverwater.co.uk/amount-we-use
4. https://www.water.org.uk/news-item/vast-majority-of-brits-have-no-idea-how-much-water-they-use-each-day/
5. Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Orlifoedd Stormydd yng Nghymru
6. Rheoliadau Amgylcheddol ar gyfer Gorlifoedd: Cynllun Gweithredu
7. SoNaRR 2020: Freshwater chapter
8. https://naturalresources.wales/about-us/news-and-events/blog/rivers-under-the-spotlight/?lang=cy
9. Asesiad o Gydymffurfiaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws
10. Leonard, A.F.C., Garside, R., Ukoumunne, O.C., and Gaze, W.H. (2020) A cross-sectional study on the prevalence of illness in coastal bathers compared to non-bathers in England and Wales: Findings from the Beach User Health Survey, Water Research, Vol.176, p.115700
11. https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/bulletins/uknaturalcapital/landandhabitatecosystemaccounts#ecosystem-accounts-for-freshwater
12. https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S1438463917302699 and https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0013935120310665?via%3Dihub#bib2
13. Opsiynau Labelu Dwr: Dadansoddiad Cost a Budd ar gyfer Cymru

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

www.waleslink.org

Rhwydwaith o Gyrff Anllywodraethol amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth yng Nghymru yw Cyswllt Amgylchedd Cymru (y Cyswllt). Mae'r Cyswllt yn gorff cyfryngol mawr ei barch sy'n cysylltu'r llywodraeth gyda'r sector Cyrff Anllywodraethol amgylcheddol. Ein gweledigaeth yw amgylchedd ffyniannus yng Nghymru i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r papur hwn yn cynrychioli barn gydsyniol grŵp o aelodau'r Cyswllt sy'n gweithio yn y maes arbenigol hwn. Fe all aelodau hefyd gynhyrchu gwybodaeth eu hunain er mwyn codi materion mwy manwl sy'n bwysig i'w corff arbennig nhw.

Afonydd Cymru AC Caring for Welsh Rivers

amphibian and reptile conservation

Bat Conservation Trust

BMC Cyngor Mynydda Prydain

buglife Cymru

Bumblebee Conservation Trust

Butterfly Conservation Wales Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Campaign for National Parks Keeping beautiful places safe

Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol Cadw mannau prydferth yn ddiogel

Canŵ Cymru Canoe Wales

YDCW CPRW

Ymddiriedolaeth Cwm Elan / Elan Valley Trust

Freshwater Habitats Trust

John Muir Trust For wild land & wild places

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

Llais y Goedwig The voice of community woodlands in Wales

Marine Conservation Society

Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust

Open Spaces Society

Plantlife

Pori Natur a Threftadaeth PONT

y cerddwyr ramblers cymru

RSPB CYMRU

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society

WDC Whale and Dolphin Conservation

WildFish.

Wildlife Trusts Wales Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Coed Cadw Woodland Trust

WWF

yha

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

www.waleslink.org

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Rhif Elusen Gofrestredig:1022675)
© 2020 Cyswllt Amgylchedd Cymru